

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 ("y Rheoliadau Asesiadau Poblogaeth").

Mae rheoliad 1 (enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli) wedi ei ddiwygio i ddiffinio'r term "pobl hŷn".

Mae rheoliadau 5 a 6 (byrddau partneriaeth rhanbarthol, trefniadau partneriaeth) wedi eu diwygio yn unol â'r newidiadau a wnaed i ffin Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae rheoliad 11 (aelodaeth o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol) wedi ei ddiwygio i bennu y bydd "o leiaf un" aelod o—

- y bwrdd iechyd lleol;
- y rheini sy'n cynrychioli pobl ag anghenion am ofal a chymorth;
- y rheini sy'n cynrychioli gofalwyr;

ac "o leiaf" ddau berson o'r trydydd sector ar y byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Mae rheoliad 11 wedi ei ddiwygio i sicrhau bod cynrychiolwyr o'r sector tai ar y byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Mae rheoliad 12 (adroddiadau) wedi ei ddiwygio i ychwanegu'r gofyniad i fyrddau partneriaeth gyflwyno eu hadroddiadau erbyn 30 Mehefin fan bellaf.

Mae rheoliad 12A yn mewnosod darpariaeth newydd ar gyfer y cyrff partneriaeth, sef i bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol lunio strategaeth gomisiynu ranbarthol ar gyfer lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl hŷn.

Mae mân ddiwygiadau wedi eu gwneud i reoliadau 13 ac 16.

Mae rheoliad 19 (sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun) wedi ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth er mwyn sicrhau bod cyrff partneriaeth yn gwneud cyfraniad ariannol at yr un gronfa gyfun; a'r swm i fod yn gymesur â'r angen disgwylidig am lety cartref gofal fel y'i nodir gan y strategaeth gomisiynu ranbarthol.

Mae'r Rheoliadau Aseidiadau Poblogaeth wedi eu diwygio yn unol â'r newidiadau a wnaed i ffin Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Abertawe.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
2019**

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 166(1)(b), (3) a (4)(a), 167(3) a 168(2)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2019.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “Rheoliadau 2015” yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(1).

(5) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “y Rheoliadau Asesiadau Poblogaeth” yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015(2).

Diwygiadau i Reoliadau 2015

2. Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 11.

Dehongli

3. Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli), ym mharagraff (4) mewnosoder y diffiniad a ganlyn yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor—

“ystyr “pobl hŷn” (“*older people*”) yw personau sy’n 60 oed neu drosodd;”.

Byrddau partneriaeth rhanbarthol

4. Yn rheoliad 5 (trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin), ym mharagraff (1) hepgorer “Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr”.

5. Yn rheoliad 6 (trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Cwm Taf), ym mharagraff (1), o flaen “Bwrdd Iechyd Prifysgol” mewnosoder “Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr”.

Aelodaeth o fyrddau partneriaeth rhanbarthol

6. Mae rheoliad 11 (aelodaeth o fyrddau partneriaeth rhanbarthol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

- (a) ym mharagraff (1)(d), o flaen “cynrychiolydd” mewnosoder “o leiaf un”;
- (b) ym mharagraff (1)(e), yn lle “dau” rhodder “o leiaf ddau”;
- (c) ym “mharagraff (1)(g), o flaen “un person” mewnosoder o leiaf”;
- (d) ym mharagraff (1)(h), o flaen “un person” mewnosoder “o leiaf”;
- (e) ar ôl paragraff (1)(h) mewnosoder—

““(i) o leiaf un uwch-swyddog awdurdod lleol sy’n gyfrifol am fuddsoddiad cyfalaf mewn tai ar

(1) O.S. 2015/1989 (Cy. 299).

(2) O.S. 2015/1495 (Cy. 167).

gyfer yr ardal a gwmpesir gan y
bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

- (j) o leiaf ddau berson sy'n
cynrychioli landlordiaid
cymdeithasol cofrestredig ar gyfer
yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd
partneriaeth rhanbarthol.”

(2) Ym mharagraff (4) mewnosoder y diffiniad a
ganlyn yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor—

“ystyr “landlord cymdeithasol cofrestredig”
 (“*registered social landlord*”) yw corff
Cymreig sydd wedi ei gofrestru â
Gweinidogion Cymru o dan Ran 1 o Ddeddf
Tai 1996(1)”;

Adroddiadau

7. Yn rheoliad 12 (adroddiadau), ym mharagraff (3)
ar ôl “yn flynyddol” mewnosoder “erbyn 30 Mehefin
fan bellaf”.

Strategaeth gomisiynu ranbarthol

8. Ar ôl rheoliad 12 mewnosoder—

“Strategaeth Gomisiynu Ranbarthol – lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl hŷn

12A.—(1) Rhaid i'r cyrff partneriaeth ar gyfer
pob ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol(2),
gyda'i gilydd, lunio strategaeth sy'n nodi eu
trefniadau ar gyfer comisiynu lleoedd mewn
cartrefi gofal i bobl hŷn a chyfeirir at y
strategaeth hon yn y rheoliad hwn fel
“strategaeth gomisiynu ranbarthol”.

(2) Rhaid i strategaeth gomisiynu
ranbarthol—

- (a) gael ei llunio gan roi sylw i'r cynllun
neu'r cynlluniau a lunnir gan bob un
o'r cyrff partneriaeth o dan adran 14A
o'r Ddeddf;
- (b) cofnodi'r cytundeb y daw'r partneriaid
iddo ynghylch comisiynu lleoedd
mewn cartrefi gofal i bobl hŷn gan
gynnwys cytundeb ynghylch—
 - (i) y mathau gwahanol o lety sy'n
ofynnol; a
 - (ii) nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal
sy'n ofynnol.

(1) 1996 p. 52.

(2) Mae'r ardaloedd bwrdd partneriaeth wedi eu nodi yn rheoliadau 2 –
8 o Reoliadau 2015.

(3) Rhaid i'r cyrff partneriaeth ar gyfer pob ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol lunio a chyhoeddi eu strategaeth gomisiynu ranbarthol gyntaf erbyn mis Ebrill 2020 a rhaid iddynt adolygu'r strategaeth yn flynyddol.

(4) Nid oes dim byd yn y rheoliad hwn sy'n atal cyrff partneriaeth rhag llunio strategaethau comisiynu ar gyfer gwasanaethau eraill mewn ymateb i'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad y mae'r cyrff partneriaeth wedi ymgymryd ag ef yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf."

Rhannu gwybodaeth

9. Yn rheoliad 13 (rhannu gwybodaeth), ym mharagraff (1), yn lle "gan y" rhodder "yn unol â'r".

Sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd

10. Yn rheoliad 16 (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd), ym mharagraff (1), yn lle "trefniadau partneriaeth" rhodder "ardaloedd bwrdd partneriaeth rhanbarthol".

Cronfeydd cyfun – lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl hŷn

11. Mae rheoliad 19 (sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle "trefniadau partneriaeth" rhodder "ardaloedd bwrdd partneriaeth rhanbarthol";

(ii) yn is-baragraff (a), ar ôl "cartref gofal" mewnosoder "pobl hŷn";

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1ZA) Rhaid i'r cyrff partneriaeth gyflawni'r ddyletswydd i sefydlu a chynnal cronfa gyfun mewn perthynas â swyddogaethau llety cartref gofal pobl hŷn o dan baragraff (1)(a) o'r rheoliad hwn drwy sefydlu a chynnal un gronfa ar gyfer pob ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol y mae pob un o'r partneriaid ar gyfer pob ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn gwneud cyfraniadau ariannol ati.

(1ZB) Rhaid i'r cyrff partneriaeth sicrhau bod swm y cyfraniadau a wneir ganddynt at y gronfa gyfun sy'n ofynnol o dan baragraff (1)(a) yn gymesur â'r angen disgwylidig am lety cartref gofal a nodir yn y strategaeth gomisiynu ranbarthol a lunnir yn unol â rheoliad 12A."

(c) ym mharagraff (2), yn lle'r diffiniad o "swyddogaethau llety cartref gofal" rhodder—

“ystyr “swyddogaethau llety cartref gofal pobl hŷn” (“*older people care home accommodation functions*”) yw—

- (a) swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 35 ac 36 o'r Ddeddf, pan fo'r rhain yn cael eu harfer mewn perthynas â phobl hŷn i ddarparu llety mewn cartrefi gofal;
- (b) swyddogaethau Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) pan fônt yn cael eu harfer mewn perthynas â phobl hŷn—
 - (i) y mae arnynt angen sylfaenol am ofal iechyd sy'n cael ei ddiwallu drwy drefnu darparu llety ynghyd â nyrsio mewn cartrefi gofal, neu
 - (ii) nad oes arnynt angen sylfaenol am ofal iechyd ond y mae arnynt anghenion na ellir eu diwallu ond drwy'r awdurdod lleol yn trefnu darparu llety ynghyd â nyrsio mewn cartref gofal.”

Diwygiadau i'r Rheoliadau Asesiadau Poblogaeth

12. Mae'r Rheoliadau Asesiadau Poblogaeth wedi eu diwygio yn unol â'r ddarpariaeth a ganlyn.

Yr Atodlen ar gyfer trefniadau partneriaeth penodedig

13. Mae'r tabl ar gyfer trefniadau partneriaeth wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

- (a) ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hepgorer “Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr” o'r golofn Awdurdod Lleol.

- (b) ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewnosoder “Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr” yn y golofn Awdurdod Lleol.

Huw Irranca-Davies

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.
Dyddiad